DATGANIAD YSTADEGOL

Trefniadau mynediad ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2017-18

Uchafbwyntiau

22 Tachwedd 2018

Nifer y trefniadau a gymeradwywyd



Ffynhonnell: 2017-18 - JCQ; 2013-14 i 2016-17 - Ofqual

Roedd 20,905 o drefniadau mynediad a gymeradwywyd yn 2017-18, i lawr 1.0% o 2016-17.

Roedd gan 93.7% o ganolfannau o leiaf un trefniant mynediad a gymeradwywyd.

Math o drefniadau a gymeradwywyd



Ffynhonnell: 2017-18 - JCQ; 2013-14 i 2016-17 - Ofqual

Y math mwyaf cyffredin o drefniant o hyd yw 25% o amser ychwanegol, sef 64.8% o'r holl drefniadau a gymeradwywyd yn 2017-18 o gymharu â 62.8% yn 2016-17.

Nifer y papurau wedi'u haddasu

Lluniwyd 4,980 o bapurau wedi'u haddasu ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018, sy'n gynnydd o 58.9% o gymharu â haf 2017.



Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer y trefniadau mynediad a gymeradwywyd ar gyfer cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018.

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn o dan gydymffurfiaeth wirfoddol â chod ymarfer UKSA. Cyhoeddwyd datganiad o gydymffurfiaeth wirfoddol ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

Cynnwys

Cyflwyniad..... 2
Ystadegau..... 4
Rhestr termau..... 7
Nodiadau cefndir.... 9

Ystadegydd: Jonathan Davey 01633 373 261 ystadegau@cywysteraucymru.org

Ymholiadau gan y cyfryngau: Alan Morris 01633 373 216 cyfathrebu@cywysteraucymru.org

CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data ar nifer y trefniadau mynediad a gymeradwywyd (blwyddyn academaidd 2017-18) a nifer y ceisiadau am bapurau wedi'u haddasu (cyfres haf 2018) ar gyfer cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yng Nghymru.

O'r flwyddyn academaidd 2017/18, byddwn yn casglu ac yn adrodd ar ddata yng Nghymru ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Mae'r cymariaethau a wneir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Ofqual ar gyfer blynyddoedd academaidd blaenorol.

TREFNIADAU MYNEDIAD

Trefniadau mynediad yw'r darpariaethau a wneir ar gyfer myfyrwyr, a gytunwyd cyn iddynt gwblhau asesiad, i sicrhau eu bod yn cael eu hasesu'n ddilys ac nad ydynt o dan anfantais annheg oherwydd anabledd, salwch/anaf dros dro neu os nad Saesneg neu Gymraeg yw eu mamiaith. Ni ddylid drysu'r rhain ag ystyriaeth arbennig, sy'n addasiadau ar ôl yr arholiadau i farciau myfyrwyr nad ydynt wedi gallu dangos eu gallu mewn asesiad oherwydd amgylchiadau eithriadol megis profedigaeth ar adeg yr asesiad.

Gall unrhyw fyfyrwyr sy'n cwblhau asesiadau TGAU, Uwch Gyfrannol neu Safon Uwch sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y cyrff dyfarnu gael trefniant mynediad. Gallai fod angen mwy nag un ffurf ar drefniant mynediad ar fyfyrwyr unigol. Yn unol â chanllawiau'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau[1], unwaith y bydd wedi'i ddyfarnu, bydd y trefniant yn gymwys am hyd at 26 mis, er y bydd ceisiadau a wneir ar sail amodau dros dro ond yn para am un gyfres arholiadau yn unig. Felly, bydd rhai trefniadau a gymeradwywyd cyn y flwyddyn academaidd 2017-18 yn weithredol o hyd ond ni fyddant yn cyfrannu at y ffigurau a gyflwynir yn y datganiad hwn. Dim ond unwaith y bydd trefniadau sy'n cwmpasu sawl cyfres o arholiadau yn cael eu cyfrif. Mae'n rhaid ailgyflwyno unrhyw drefniadau sydd ar waith ar gyfer 25% o amser ychwanegol, darllenwyr cyfrifiadur neu ysgrifenwyr ar gyfer asesiadau TGAU pan fydd y myfyriwr yn gwneud cymwysterau Uwch Gyfrannol neu Safon Uwch. Mae'r ailgyflwyniadau hyn yn ymddangos yn y data fel ceisiadau newydd am drefniadau mynediad.

[1] https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/access-arrangements-and-reasonable-adjustments-booklet

Mewn cyferbyniad i drefniadau mynediad, gwneir ceisiadau am bapur wedi'i addasu ar gyfer pob papur arholiad unigol. Gall ymgeisydd unigol ofyn am sawl papur wedi'u haddasu mewn cyfres unigol o arholiadau. Oherwydd gwahaniaethau mewn dulliau casglu data, caiff ffigurau ar gyfer papurau wedi'u haddasu eu cyflwyno ar wahân i fathau eraill o drefniant mynediad.

YSTADEGAU

TREFNIADAU MYNEDIAD

BETH YW'R TREFNIADAU MYNEDIAD A GYMERADWYWYD MWYAF CYFFREDIN?

Tabl 1: Nifer a chyfran pob math o drefniant a gymeradwywyd ar gyfer blynyddoedd academaidd 2016-17 a 2017-18

	Nifer			% y myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau	
Trefniant mynediad	**2016-17**	**2017-18**	**% newid**	**2016-17**	**2017-18**
25% o amser ychwanegol	13,260	13,540	2.1%	12.3%	12.9%
Darllenydd cyfrifiadur / Darllenydd	5,285	5,140	-2.8%	4.9%	4.9%
Ysgrifennydd	1,550	1,430	-7.7%	1.4%	1.4%
Arholiad ar bapur lliw	600	330	-44.7%	0.6%	0.3%
Amser ychwanegol > 25%	160	165	4.4%	0.1%	0.2%
Arall	260	295	13.0%	dd/g	dd/g
Cyfanswm	**21,120**	**20,905**	**-1.0%**	**dd/g**	**dd/g**

Ffynhonnell: 2017-18 - JCQ; 2013-14 i 2016-17 - Ofqual

Noder: Mae 'Arall' a 'Cyfanswm' yn cynnwys sawl math o drefniant, sy'n golygu y gall myfyriwr gael mwy nag un. Gellir ond cyfrifo '% y myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau' pan roddir un trefniant mynediad fesul myfyriwr.

Ffigur 1: Nifer y trefniadau a gymeradwywyd ar gyfer y tri math mwyaf cyffredin o drefniant a gymeradwywyd, 2013-14 i 2017-18



Ffynhonnell: 2017-18 - JCQ; 2013-14 i 2016-17 - Ofqual

Y prif gategori trefniadau mynediad yw 25% o amser ychwanegol o hyd, sy'n cynyddu fel cyfran o drefniadau mynediad a gymeradwywyd cyffredinol o 62.8% i 64.8% yn 2017-18. Fodd bynnag, arafodd cyfradd y cynnydd ar gyfer y categori hwn yn 2017-18 o gymharu â'r ddwy flynedd academaidd flaenorol.

Y gostyngiad mwyaf oedd arholiad ar bapur lliw, i lawr 44.7% i 330 yn 2017-18. Mae'n debygol mai'r esboniad ar gyfer hyn yw bod y Cyd-bwyllgor Cymwysterau yn argymell y dylai ymgeiswyr sydd am sefyll arholiad ar bapur lliw wneud cais am fath o bapur wedi'i addasu (papur cwestiwn di-ryngweithiol) yn lle hynny.

Roedd 310 o ganolfannau (93.7% o'r holl ganolfannau) wedi cymeradwyo trefniadau mynediad ar gyfer un neu fwy o'u myfyrwyr yn 2017-18, o gymharu â 91.1% yn 2016-17.

PAPURAU WEDI'U HADDASU

A YW CEISIADAU AM BAPURAU WEDI'U HADDASU YN CYNYDDU DROS AMSER?

Gwneir ceisiadau am bapurau wedi'u haddasu gan ganolfannau cyn cyfres arholiadau benodol. Caiff papurau wedi'u haddasu ar gyfer myfyrwyr sydd, er enghraifft, ag amrywiaeth o namau ar y golwg ac anhwylderau dealltwriaeth o iaith sylweddol er mwyn eu helpu i ddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Ffigur 2: Nifer y papurau wedi'u haddasu a luniwyd yng Nghymru, cyfres haf 2014 i 2018



Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Cynyddodd nifer y papurau wedi'u haddasu yng Nghymru 58.9% i 4,980 yn ystod haf 2018 (ffigur 2).

Yn 2017 daeth diwedd ar y duedd am i fyny mewn papurau wedi'u haddasu dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'n debygol bod hyn o ganlyniad i gyflwyno'r cymhwyster TGAU Mathemateg diwygiedig yng Nghymru, sy'n cynnwys iaith wedi'i haddasu ar gam cynllunio'r papur cwestiwn. Mae'r cynnydd yn 2018 wedi'i lywio'n bennaf gan geisiadau am iaith wedi'i haddasu ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth newydd, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr sefyll nifer fawr o asesiadau. Cynyddodd y nifer a gofrestrodd i sefyll cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth yn ystod haf 2018 hefyd wrth i newidiadau i fesurau perfformiad ysgolion olygu nad oedd cymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol yn cael eu cyfrif mwyach.

Mae nifer y papurau wedi'u haddasu ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018 ond yn cynrychioli canran fach iawn o'r 1,025,350 o bapurau a farciwyd ar gyfer arholiadau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yng Nghymru o hyd (ffigur 3). Mae hyn er gwaethaf y nifer gynyddol o bapurau wedi'u haddasu yn 2018 yn gwthio'r ganran i 0.5%, sef yr uchaf mewn pum mlynedd.

Ffigur 3: Papurau wedi'u haddasu a gyflwynwyd fel cyfran o gyfanswm y papurau, cyfres haf 2014 i 2018



Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

BETH YW'R CEISIADAU MWYAF CYFFREDIN AM BAPURAU WEDI'U HADDASU?

Ffigur 4: Cyfran o bob math o bapur wedi'i addasu yn 2017 a 2018



Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2017 - Ofqual

Tabl 2: Nifer pob math o bapur wedi'i haddasu yn 2017 a 2018

Math o Bapur wedi'i Addasu	2017	2018	% Newid
Papurau testun trwm maint 18	1,000	1,340	34.1%
Papurau testun trwm maint 24	500	375	-25.3%
Iaith wedi'i haddasu	1,105	1,775	60.6%
Papurau cwestiwn electronig di-ryngweithiol	420	1,220	190.0%
Fformatau eraill	105	270	154.2%
Cyfanswm	**3,135**	**4,980**	**58.9%**

Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Noder: Mae 'fformatau eraill' yn cynnwys papurau wedi'u haddasu a ddefnyddir yn llai aml megis trawsysgrifau o brofion gwrando/fideo a phapurau braille.

Ffigur 5: Nifer y papurau wedi'u haddasu a luniwyd yn ôl math o bapur wedi'i addasu, cyfres haf 2014 i 2018



Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual

Iaith wedi'i haddasu oedd y math mwyaf poblogaidd o bapur wedi'i addasu y gwnaed cais amdano yn 2018 (1,775).

Cynyddodd papurau testun trwm maint 18 am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, i fyny i 1,340 yn ystod haf 2018. Fodd bynnag, mae papurau testun trwm maint 24 wedi dod yn llai cyffredin.

Roedd cynnydd mawr yn nifer y papurau cwestiwn electronig di-ryngweithiol, i fyny 190.0% i 1,220 yn 2018, sy'n gysylltiedig â newid yn y cyngor mae'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau yn ei roi i ganolfannau yn ei ganllawiau.

RHESTR TERMAU

Addasiadau rhesymol

Addasiadau a wneir i arholiad neu asesiad i alluogi ymgeisydd sydd ag anableddau i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth fel na fydd yr anabledd yn rhoi'r ymgeisydd o dan anfantais sylweddol o gymharu ag ymgeisydd nad yw'n anabl. Gall addasiad rhesymol ar gyfer person penodol fod yn unigryw i'r unigolyn hwnnw ac efallai nad fydd wedi'i gynnwys ar y rhestr o Drefniadau Mynediad sydd ar gael[2], sy'n golygu efallai na fydd wedi'i gynnwys yn y data hyn.

Canolfan

Corff sy'n cyflenwi asesiadau (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysg, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw'r canolfannau hyn.

Corff Dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn cyflwyno dyfarniadau i ddysgwyr, yn cydnabod y deilliannau dysgu yn ffurfiol (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu Fyrddau Arholi.

Papur wedi'i addasu

Gwneir ceisiadau am bapurau wedi'u haddasu cyn cyfres arholiadau penodol a chânt eu paratoi'n unigol ar gyfer ymgeiswyr nad yw trefniadau mynediad eraill yn addas iddynt. Mae papurau cwestiwn wedi'u haddasu yn galluogi ymgeiswyr sydd ag amrywiaeth o namau ar y golwg neu anhwylderau dealltwriaeth o iaith sylweddol i ddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Safon Uwch

Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch. Cymwysterau a gaiff eu hastudio, ar ôl cymwysterau TGAU, mewn amrywiaeth o bynciau. Dysgwyr 16-18 oed sydd fel arfer yn dilyn cwrs astudio dwy flynedd sy'n eu hastudio fel arfer. Maent yn cael eu defnyddio fel sail i dderbyn myfyrwyr i addysg uwch, hyfforddiant pellach neu fynediad i gyflogaeth.

[2] http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

TGAU

Mae cymwysterau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn amrywiaeth eang o bynciau. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru.
Gellir eu defnyddio fel sail i astudio neu hyfforddi ar lefel uwch, neu i gael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

Trefniant mynediad

Trefniadau sy'n cael eu cymeradwyo cyn arholiad neu asesiad i alluogi sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth gael eu dangos gan ymgeiswyr sydd ag anabledd neu anhawster dysgu parhaol neu hirdymor, neu anaf dros dro, salwch, anhwylder neu gyflwr meddygol, neu angen addysgol arbennig, gan gynnwys lle nad Cymraeg, Saesneg neu Wyddeleg yw mamiaith yr ymgeisydd.

Uwch Gyfrannol (UG)

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei gymryd fel cymhwyster ar wahân. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n cyfrannu at ganlyniad y Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau UG gyfrannu at y Safon Uwch.

NODIADAU CEFNDIR

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Gan ein bod yn y broses o sicrhau y gallwn gyflawni ein swyddogaethau fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol yn llawn, nid yw'r datganiad ystadegol hwn wedi cael ei gyhoeddi'n ffurfiol fel ystadegyn swyddogol. Er hynny, wrth baratoi'r datganiad hwn, ein nod, cyhyd ag y bo modd, yw gweithredu mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau[3]. Caiff pob cyhoeddiad trefniadau mynediad yn y dyfodol, yn dechrau â'r datganiad nesaf ym mis Tachwedd 2019, ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

Trefniadau mynediad

Mae'r cymwysterau a gwmpesir gan y datganiad hwn wedi'u rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Mae'r gofynion y mae angen i'r cyrff dyfarnu eu bodloni wedi'u pennu yn yr Amodau Cydnabod Safonol[4].

Mae'r amodau hyn yn nodi bod yn rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Cyfraith Cydraddoldeb mewn perthynas â phob un o'r cymwysterau a gynigir ganddo. Mae'r datganiad hwn yn cyhoeddi data ar addasiadau rhesymol a wnaed ar gyfer ymgeiswyr sy'n anabl o dan ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau (JCQ), sefydliad aelodaeth sy'n cynnwys y saith darparwr cymwysterau mwyaf yn y DU, gan gynnwys y rhai sy'n dyfarnu cymwysterau TGAU a Safon Uwch, yn diffinio trefniadau mynediad fel addasiadau a wnaed cyn arholiad ar gyfer ymgeiswyr yn seiliedig ar dystiolaeth o angen a ffordd arferol o weithio[5].

Gall fod angen trefniadau mynediad ar ymgeiswyr am sawl rheswm, gan gynnwys anabledd, cyflwr meddygol neu salwch, neu os nad Cymraeg, Saesneg neu Wyddeleg yw eu hiaith gyntaf.

Dylai canolfannau ystyried gofynion penodol ymgeiswyr unigol ac yna ddilyn canllawiau a threfniadau cyrff dyfarnu. Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen i ategu cais yn amrywio, gan ddibynnu ar y rhesymau dros y gofyniad penodol a'r mathau o drefniant y gwneir cais amdano. Pan gaiff cais i ymgeisydd gael 25% o amser

[3]Gweler https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/

[4] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

[5] https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

ychwanegol o ganlyniad i anhawster dysgu ei gyflwyno, mae'r JCQ yn gofyn am dystiolaeth o effaith anhawster yr ymgeisydd gan ddefnyddio profion safonedig o'u cyflymder darllen, darllen y deunydd darllen a deall, ysgrifennu a/neu ddefnyddio mesurau prosesu gwybyddol.

Mae JCQ hefyd yn cyhoeddi dogfen flynyddol[6] yn pennu'r trefniadau mynediad y gall canolfannau arholi ofyn i fyrddau amdanynt a'r meini prawf cymhwysedd a thystiolaethol perthnasol. Gellir hefyd gofyn am drefniadau eraill.

Gall unrhyw ymgeisydd sy'n sefyll arholiadau TGAU, UG neu Safon Uwch neu asesiadau nad ydynt yn arholiadau sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd ar gyfer trefniant mynediad, gael cymeradwyaeth ar ei gyfer. Gallai fod angen mwy nag un trefniant mynediad ar ymgeiswyr unigol. Ar ôl i'r trefniant gael ei ddyfarnu, bydd yn gymwys am hyd at 26 mis, er y bydd ceisiadau a wneir ar sail amodau dros dro ond yn para am un gyfres arholiadau yn unig.

Trefniadau Mynediad Ar-lein

System ganolog JCQ yw Trefniadau Mynediad Ar-lein a ddefnyddir gan ysgolion a cholegau i wneud ceisiadau am drefniadau mynediad. Mae'n galluogi canolfannau i gyflwyno un cais canolog yn hytrach na chyflwyno ceisiadau i bob corff dyfarnu ar wahân. Nid oedd y gallu i echdynnu gwybodaeth ystadegol fanwl yn rhan o'r cwmpas ar gyfer cynllun gwreiddiol y system. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i'r data a ddarperir. Er enghraifft, mae'r ffigurau ar gyfer nifer y cymeradwyaethau mewn blwyddyn academaidd benodol ond gall trefniadau bara am 26 mis, ac felly bydd angen mwy nag un trefniant ar rai ymgeiswyr.

Mae'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyrff dyfarnu i ategu cais am drefniant mynediad yn amrywio yn ôl y trefniant y gwnaed cais amdano a gofynion penodol yr ymgeisydd. Caiff ceisiadau am gategorïau penodol, megis cynorthwywyr ymarferol a mwy na 25% o amser ychwanegol, eu hatgyfeirio i'r corff dyfarnu perthnasol gan y byddai angen i ysgol neu goleg ddarparu gwybodaeth fanwl i ategu'r cais.

Caiff y gwaith o gymeradwyo rhai trefniadau ei ddirprwyo i ysgolion a cholegau lle mae cyrff dyfarnu yn barnu nad oes unrhyw fantais i ddysgwyr mewn perthynas â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu profi (er enghraifft, defnyddio prosesydd geiriau). Felly, mae'r ystod o drefniadau y mae'n rhaid i ysgolion a cholegau eu cofrestru gyda chyrff dyfarnu wedi amrywio dros amser.

[6] https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/access-arrangements-and-reasonable-adjustments-booklet

Papurau cwestiwn sydd wedi'u haddasu

Rhaid i ganolfannau wneud ceisiadau am bapurau cwestiwn sydd wedi'u haddasu cyn cyfres arholiadau benodol. Caiff papurau sydd wedi'u haddasu eu paratoi'n unigol ar gyfer ymgeiswyr nad yw trefniadau mynediad eraill yn addas iddynt. Mae'r papurau hyn yn galluogi ymgeiswyr sydd ag amrywiaeth o namau ar y golwg neu anhwylderau dealltwriaeth o iaith sylweddol i ddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Yn 2017-18, roedd y mathau o bapurau sydd wedi'u haddasu y gellid gwneud cais amdanynt yn cynnwys y canlynol:

- papurau testun trwm maint 18 wedi'u haddasu
- papurau testun trwm maint 24 wedi'u haddasu
- papurau Braille a diagramau cyffyrddol â labeli Braille
- iaith wedi'i haddasu
- papurau cwestiynau electronig di-ryngweithiol
- diagramau cyffyrddol â labeli print
- trawsgrifiad o brawf gwrando neu fideo.

Hefyd, caiff nifer fach o geisiadau eu gwneud nad ydynt yn dod o dan y prif gategorïau a gyhoeddwyd gan JCQ. Caiff y rhain eu nodi o dan ffurfiau eraill yn y data a'r tablau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r datganiad hwn (gweler Tabl 2).

Mae'r categorïau a ddefnyddir yn y datganiad hwn yn cyd-fynd â'r categorïau a ddefnyddir gan ganllawiau JCQ mewn Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol 2017-2018[7].

Caiff ceisiadau am bapurau sydd wedi'u haddasu eu prosesu a'u cynhyrchu gan y cyrff dyfarnu. Mae categorïau eraill o bapurau sydd wedi'u haddasu ar gael – er enghraifft, papurau A3 wedi'u chwyddo nad ydynt wedi'u haddasu, y mae canolfannau yn eu cynhyrchu gyda chaniatâd gan y corff dyfarnum drwy agor y papur safonol awr cyn dechrau'r arholiad er mwyn ei chwyddo.

Ffynhonnell Data

Mae JCQ yn anfon data i Cymwysterau Cymru ar drefniadau mynediad o system Trefniadau Mynediad Ar-lein. Mae cyrff dyfarnu yn cyflwyno data ar nifer y papurau diwygiedig a gynhyrchwyd ar gyfer cyfres haf 2018. Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru y mae'r trefniadau mynediad a'r papurau sydd wedi'u haddasu, ni waeth pa fath o ganolfan ydyw. Mae'r datganiad hwn yn

[7] https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/access-arrangements-and-reasonable-adjustments-booklet

cwmpasu tueddiadau mewn trefniadau mynediad a nifer y papurau sydd wedi'u haddasu a gynhyrchwyd dros amser ac mae'n darparu dadansoddiadau yn ôl y math o drefniant/papur sydd wedi'i addasu.

Cyfyngiadau'r data

Mae camgymeriadau posibl yn y wybodaeth a ddarparwyd gan gyrff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru sicrhau bod y wybodaeth a gafwyd yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio ar gyfer problemau systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'u herio neu eu cwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â nhw yn ystod y cyfnodau cynllunio cychwynnol ac unrhyw gyfnodau newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) bod yn rhaid i'r holl ddata fod yn hollol gywir fel amod eu bod yn cael eu rheoleiddio;
- Bod yn wyliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

Mae data wedi'u casglu ar adeg briodol pan fo'n rhesymol gyflawn, sef 9 Awst 2018 ar gyfer y papur sydd wedi'i addasu ar gyfer data cyfres haf 2018 yn y datganiad hwn. Darparodd JCQ y data trefniant mynediad a oedd yn cwmpasu'r flwyddyn academaidd 2017-2018 gyfan ar 10 Medi 2018.

Cymariaethau

Ar gyfer 2017-18 bydd cyrff dyfarnu yn cyflwyno data cymwysterau cyffredinol i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli cymariaethau â data Ofqual hanesyddol.

Cwmpas Daearyddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018 ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. **Nid** yw'r datganiad hwn yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gaiff eu sefyll y tu allan i Gymru.

Diwygiadau

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, nid yw'r data ar nifer y trefniadau mynediad fel arfer yn cael eu hadolygu, er y gall datganiadau dilynol gael eu hadolygu i gynnwys data hwyr neu gywiro camgymeriad.

Cyflawnrwydd y data

Mae JCQ a chyrff dyfarnu yn anfon data trefniadau mynediad a phapurau sydd wedi'u haddasu ar gyfer yr holl gymwysterau rheoleiddiedig a gaiff eu dosbarthu yn TGAU, UG a Safon Uwch, i Gymwysterau Cymru. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd cyfres lawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i wneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff yr holl ffigurau ar gyfer cofrestriadau eu talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Rhoddir * yn lle ffigurau llai na 5 ond mwy na 0. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Mae defnyddwyr eraill yn cynnwys grwpiau anabledd, swyddogion polisi'r llywodraeth, academyddion, ymchwilwyr a'r cyhoedd. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr, felly rydym yn disgwyl cael gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn er mwyn sicrhau bod cymwysterau Safon Uwch, UG a TGAU yn addas at y diben ac yn bodloni safonau disgwyliedig.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r datganiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Datganiad 'Canlyniadau Arholiadau yng Nghymru, 2017/18'[8], a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Ystyriaeth arbennig ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2018[9].

[8] Gweler https://gov.wales/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy

[9] I'w gyhoeddi ar 29 Tachwedd 2018: https://www.qualificationswales.org/english/our-work/research_and_statistics/research_and_statistics_publications/?page=1&perpage=10&categories=&sortBy=byDate&fromDate=&toDate=&query=&publicationTypes=4208

- Datganiad 'Access arrangements for GCSE and A Level: 2017 to 2018 academic year',[10]

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 5 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan[11] Llywodraeth Cymru ac ar ein gwefan[12] ni. Mae cofrestr QiW[13] yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Y diweddariad nesaf

Tachwedd 2019.

Adborth gan ddefnyddwyr

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bost i statistics@qualificationswales.org

(h) (2018) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.

[10] https://www.gov.uk/government/statistics/access-arrangements-for-gcse-and-a-level-2017-to-2018-academic-year
[11] Gweler http://gov.wales/statistics-and-research/?upcoming=true&lang=cy
[12] Gweler https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/upcoming-publications/
[13] Gweler https://www.qiw.wales/?lang=cy